WILLIAMS, DAVID (1717 - 1792), gweinidog Annibynnol Methodistaidd

Enw: David Williams
Dyddiad geni: 1717
Dyddiad marw: 1792
Priod: Elizabeth Williams (née Prichard)
Rhiant: William Dafydd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn Is-coed, Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin, mab William Dafydd. Brawd iddo oedd Richard William Dafydd, y cynghorwr. Daeth i Forgannwg yn ieuanc yn was i Christopher Bassett, ieu., Aberddawen, a dechreuodd gynghori gyda'r Methodistiaid c. 1742. Nid oes sicrwydd ai ef oedd y David Williams a benodwyd yn gynghorwr preifat yn sasiwn Watford, 1743, ond gwyddys iddo bregethu llawer yn ddiweddarach yn y Gogledd. ' G r tirion ' oedd efe,' meddai John Evans o'r Bala, ' a phregethwr hynod o iraidd a gwlithog '; ychwanega Robert Jones, Rhos-lan, ei fod yn ddiwinydd da. Aeth i fyw i bentref Llyswyrny, gerllaw'r Bont-faen, i ofalu am fan seiadau 'r ardal, a phriodod ag Elizabeth, merch Evan Prichard o'r Collennau. Ar gyngor Daniel Rowland, meddir, urddwyd ef yn weinidog yn Aberthyn, yn yr un dull ag ordeiniad Morgan John Lewis a Thomas William. Bu hynny ond odid yn ystod blynyddoedd yr ymraniad Methodistaidd. Cadwodd ei gyswllt â'r Methodistiaid, er hynny; mynychai'r sasiynau a'r seiadau, a phregethai 'n gyson ymhlith y Methodistiaid. Cafodd drafferth yn Aberthyn gan Antinomiaeth, Sandemaniaeth, a Sabeliaeth yn eu tro. Bu farw 5 Mai 1792 ' yn 75 oed, ac ef oedd y cyntaf i'w gladdu gan David Jones, Llan-gan, ym mynwent Salem, Pen-coed.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Y Drysorfa, ii, 134

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 174

H. Bevan, *Ychydig hanes neu goffadwriaeth am amryw bethau neillduol a gymmerasant le ymhlith corph y Methodistiaid Calfinaidd yn ac o'u dechreuad, sef oddiar yr amser y daeth Mr. Howel Harries i bregethu yn ei droion cyntaf i amryw barthau o Sir Forganwg a'i chyffiniau* (Abertawe 1838), 7, 22

Edward Morgan, *Home Light, or, Brief memoirs and letters of the Rev. R. Bassett, Vicar of Colwinstone, and E. Bassett, Esq., Glamorganshire* (Carnarvon 1860), 70

Methodistiaeth Cymru (1851–6), iii, 20

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 227

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 232-3

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821114

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.